



Gwasanaethau Newyddenedigol
i'r Dyfodol: Gweledigaeth i Gymru

Bliss
for babies born
premature or sick

Gwybodaeth am Bliss

Ein gweledigaeth yw bod pob baban sy'n cael ei eni'n gynnar neu'n sâl yng Nghymru yn cael y cyfle gorau i oroesi a'r ansawdd bywyd gorau. Mae Bliss yn hyrwyddo hawl pob baban sy'n cael ei eni'n gynnar neu'n sâl i gael gofal newyddenedigol, profiad a deilliannau rhagorol. Rydym yn cyflawni hyn trwy wella gofal, rhoi llais i fabanod a chefnogi rhieni i fod yn bartneriaid mewn gofal.

Dros gyfnod ein strategaeth 2025-2029, byddwn yn blaenoriaethu tegwch i bob baban newyddenedigol a theuluoedd:

Gofal teg

bod pob baban sy'n cael ei eni'n gynnar neu'n sâl yn elwa o Ofal Integredig i Deuluoedd sy'n meithrin diwylliant o bartneriaeth rhwng ei rieni a'i dîm gofal iechyd newyddenedigol

Llais teg

bod Bliss yn cynrychioli llais a buddiannau pob baban sy'n cael ei eni'n gynnar neu'n sâl, i ddylanwadu ar welliannau i bob agwedd ar ei ofal ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol

Cymorth teg

bod gan bob baban sy'n cael ei eni'n gynnar neu'n sâl rieni sy'n cael eu cefnogi'n dda ac sy'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, pan fo'i hangen, i fod yn bartneriaid yng ngofal eu baban.

Gwybodaeth am Ofal Newyddenedigol

Beth yw gofal newyddenedigol?

Gofal newyddenedigol yw'r math o ofal ysbyty y mae baban yn ei gael os bydd y baban yn cael ei eni'n sâl. Bydd babanod yn cael eu derbyn i ofal newyddenedigol yn fuan ar ôl genedigaeth, naill ai oherwydd eu bod wedi cael eu geni'n gynnar (cyn wythnos 37 y beichiogrwydd) neu maen nhw'n fabanod cyfnod llawn, ond yn sâl. Er enghraifft, gall fod haint neu gyflwr genetig arnynt, neu gallant fod yn cael trafferth anadlu. I rieni'r babanod hyn, mae'r profiad yn newid bywyd. Yn hytrach na mynd â'u baban neu fabanod adref yn fuan ar ôl geni, maen nhw'n cael eu derbyn i uned arbenigol ysbyty i dderbyn gofal sy'n sicrhau eu bod yn cael y cyfle gorau posibl i oroesi a'r ansawdd bywyd gorau.

Mae'r babanod hyn ymhlith y cleifion mwyaf bregus sydd dan ofal GIG Cymru. Gallant dreulio diwrnodau, wythnosau ac, weithiau, misoedd yn yr ysbyty. Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael, yn 2023, gwaetha'r modd, bu farw 72 faban yn ystod y cyfnod newyddenedigol (28 diwrnod cyntaf bywyd) yng Nghymru¹. Digwyddodd llawer o'r marwolaethau hyn yn yr uned newyddenedigol.

1 o bob 8

nifer y babanod wedi'u geni yng Nghymru sy'n cael eu derbyn i ofal newyddenedigol (tua 3,000 baban y flwyddyn²)

40%

canran y babanod sy'n cael eu derbyn i unedau, a anwyd yn gynnar; mae 60% yn fabanod cyfnod llawn, ond yn sâl

40%

canran y babanod sy'n cael eu derbyn i unedau sy'n effeilliaid ac yn enedigaeithau lluosog

80%

canran rhieni'r DU sy'n dweud bod derbyn eu baban i uned newyddenedigol yn effeithio ar eu hiechyd meddwl³

¹Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) Marwolaethau plant a babanod (yn ôl blwyddyn marwolaeth), Cymru a Lloegr
²Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023) Gwella Gyda'n Gilydd Dros Gymru: Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol yng Nghymru Adroddiad Cyfnod Darganfod
³Bliss (2018) Supporting better mental health on the neonatal unit – for parents and staff

Sut mae gofal newyddenedigol yn cael ei ddarparu?

Mae gofal newyddenedigol yn cael ei ddarparu ar lefelau gwahanol, yn dibynnu ar ba fath o ofal sydd ei angen ar faban – gofal dwys, gofal dibyniaeth fawr neu ofal arbennig. I ddarllen am y gwahanol fathau o ofal sy'n cael eu darparu yn y DU, [ewch i'n gwefan](#).

Mae naw uned newyddenedigol yng Nghymru. Trosglwyddir babanod rhwng unedau newyddenedigol gan y Gwasanaeth Cludo Babanod Newyddenedigol Aciwt Rhwng Ysbytai Cymru (CHANTS), a CHANTS y Gogledd, sy'n is-adran arbenigol yng Ngwasanaeth Ambiwylans Cymru.

Mae Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru yn gweithio i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau a gwella profiadau teuluoedd. Mae eu gwaith yn cynnwys datblygu a gweithredu llwybrau gofal, a sicrhau bod teuluoedd yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar waith y Rhwydwaith.

Teuluoedd yn ganolog i ofal

Mae sefydliadau'r GIG ar draws y DU yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau newyddenedigol trwy fodel gofal integredig i deuluoedd^{4,5}. Mae'r model hwn yn sicrhau bod rhieni a'r teulu ehangach yn bartneriaid gweithgar yng ngofal eu baban. Mae tystiolaeth yn dangos bod lefelau uchel o ymwneud gan rieni yn gwella deilliannau tymor byr a hir i fabanod⁶, yn lleihau sgorau straen rhieni⁷ ac yn cryfhau'r bond⁸. Mae cysylltiad rhwng gofal ymarferol, uniongyrchol gan rieni a bod y baban yn magu mwy o bwysau, gwell cyfraddau bwydo o'r fron, atgyrchau gwell gan fabanod cyfnod llawn, a datblygiad echddygol bras cryfach erbyn 4 i 5 oed⁹. Pan fydd modd i rieni aros ar yr uned, mae risg marwolaeth ac afiachedd babanod yn is ac, yn aml, byddant angen llai o ddiwrnodau gofal¹⁰. Hefyd, gall galluogi rhieni i arwain gofal arferol leddfu pwysau staffio, gan alluogi timau clinigol i ganolbwyntio ar dasgau mwy cymhleth. Felly, mae darparu'r seilwaith cywir i gefnogi presenoldeb rhieni mewn lleoliadau newyddenedigol yn hanfodol.

Mae galluogi gwasanaethau newyddenedigol i ddarparu Gofal Integredig i Deuluoedd yn holl bwysig, gyda phob un o'r 3 blaenoriaeth yn y manifest o hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r nod hwn. Gallwn helpu i leihau mynediad a deilliannau anghyfartal, sicrhau bod rhieni'n cael cymorth i aros gyda'u baban, ac amlygu bod angen staffio digonol trwy wreiddio teuluoedd mewn gofal newyddenedigol – i sicrhau y caiff babanod a anwyd yn gynnar neu'n sâl y cyfle gorau i oroesi a'r ansawdd bywyd gorau.

Asesiad Sicrwydd Cenedlaethol Annibynnol o Wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol

Cyhoeddwyd asesiad cenedlaethol annibynnol o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru yn Chwefror 2026¹¹. Er i'r panel gael llawer o adborth cadarnhaol gan rieni newydd a chanfod bod gan staff ymrwymiad cadarn i ddarparu gofal diogel, o ansawdd uchel, amlygodd yr adroddiad nifer o heriau pwysig o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys darnio sylweddol o ran y cydlynu rhwng unedau newyddenedigol, mynediad anghyson at weithwyr proffesiynol newyddenedigol perthynol i iechyd a diffyg seilwaith i gefnogi rhieni i gymryd rhan yn llawn.

Mae Bliss yn annog Llywodraeth Cymru i dderbyn canfyddiadau'r adroddiad yn llawn, ac ymrwymo i weithredu ei argymhellion dros y blynyddoedd nesaf.

⁴Llywodraeth Cymru (2025) Datganiad ansawdd ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol

⁵British Association of Perinatal Medicine (2021) Family Integrated Care: A BAPM Framework for Practice

⁶Waddington et al (2021) Family integrated care: Supporting parents as primary caregivers in the neonatal unit

⁷Bergman (2019) Birth practices: Maternal-neonatal separation as a source of toxic stress

⁸Kutahyaliloglu (2022) Effects of family-centered care on bonding: A systematic review

⁹Franck et al (2022) Neonatal outcomes from a quasi-experimental clinical trial of Family Integrated Care versus Family-Centered Care for preterm infants in the US NICUs

¹⁰Lehtonen (2020) Family Rooms in NICUs and Neonatal Outcomes: An International Survey and Linked Cohort Study

¹¹Llywodraeth Cymru (2026) Y llwybr tuag at ddechrau mwy diogel yng Nghymru

1. Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau i roi'r cyfle gorau mewn bywyd i bob baban

Oherwydd anghydraddoldebau difrifol, mae llawer o fabanod – gan gynnwys babanod o gymunedau ethnig leiafrifol a'r rhai sy'n cael eu geni mewn ardaloedd economaidd gymdeithasol difreintiedig – dan anfantais adeg eu genedigaeth ac mae eu deilliannau tymor byr a hir yn fwy tebygol o fod yn wael.

Argymhellion Bliss i roi gofal teg i bob baban sy'n cael ei eni'n gynnar neu'n sâl:

- Datblygu rhaglenni rhagweithiol i leihau anghydraddoldebau mewn gofal, profiad a deilliannau newyddenedigol
- Blaenoriaethu casglu data arferol, safonedig ar ddifreintedd cymdeithasol ac ethnigrwydd babanod newyddenedigol ar draws pob Bwrdd Iechyd
- Buddsoddi mewn ymchwil i nodi a chraffu ar annhegwch rhwng babanod o gefndiroedd demograffig gwahanol.

Cefndir

Dengys y data diweddaraf mai Cymru sydd â'r gyfradd marwolaethau newyddenedigol uchaf yn y DU (1.79 fesul 1,000 genedigaeth fyw) o gymharu â chyfartaledd y DU (1.63 fesul 1,000 genedigaeth fyw)¹².

Ar hyn o bryd, mae anghydraddoldebau'n bodoli yng ngofal, profiad a deilliannau babanod sy'n cael eu geni'n gynnar neu'n sâl yng Nghymru¹³, ac mae angen gwneud llawer mwy i leihau amrywiadau direswm mewn deilliannau. Mae'n bosibl nodi'n glir sut mae'r anghydraddoldebau hyn yn dod i'r golwg mewn gofal newyddenedigol – er enghraifft, mae risg babanod o gefndiroedd economaidd gymdeithasol neu ethnig penodol o enedigaeth cyn amser¹⁴, ac o farwolaeth newyddenedigol¹⁵ yn uwch o lawer, ac mae rhieni o gefndiroedd economaidd gymdeithasol is yn debygol o wynebu rhwystrau ariannol sy'n eu hatal rhag bod yn bartneriaid yng ngofal eu baban¹⁶. Er na ddeallir yn dda sut gall deilliannau aros mewn uned newyddenedigol amrywio i fabanod o wahanol gefndiroedd, mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg sy'n awgrymu y gallai arferion gofal yn yr uned newyddenedigol gyfrannu at anghysondebau parhaus wrth oroesi¹⁷. Yn yr un modd, nid oes dealltwriaeth dda ychwaith o'r graddau y gall profiadau gwahaniaethol o ofal newyddenedigol effeithio ar allu rhai rhieni i gymryd rhan yng ngofal eu baban.

Yng Nghymru, ganwyd 7.1 y cant o fabanod yn 2022 i famau o dreftadaeth Asiaidd/Asiaidd Prydeinig neu Ddu/Du Prydeinig^{18,19}. Er mai cyfran gymharol fach yw hon o enedigaethau, mae'n hanfodol peidio ag anwybyddu profiadau a deilliannau'r teuluoedd hyn. Nid yw'r data hwn wedi'i wahanu yn ôl gwlad, ond ar draws y DU, mae cyfraddau marwolaeth newyddenedigol ar eu huchaf i fabanod Asiaidd (2.35 fesul 1,000 genedigaeth fyw), yna babanod Duon (2.28 fesul 1,000 genedigaeth fyw) ac, yn olaf, babanod Gwyn (1.50 fesul 1,000 genedigaeth fyw)²⁰. Ar y cyfan, gostyngodd marwolaethau newyddenedigol yn 2023 o gymharu â 2022 i fabanod o bob ethnigrwydd, ond mae gwahaniaethau ar sail amddifadedd yn ehangu²¹.

¹²MBRRACE-UK (2025) Perinatal mortality surveillance

¹³Llywodraeth Cymru (2025) Datganiad ansawdd ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol

¹⁴Pwyllgor Geni Cyn Amser Tŷ'r Arglwyddi (2024) Preterm birth: reducing risks and improving lives

¹⁵MBRRACE-UK (2025) Perinatal mortality surveillance

¹⁶Bliss (2022) Impact of cost-of-living crisis in neonatal care

¹⁷Saberian, Samira et al. (2025) Inequalities in neonatal unit mortality in England and Wales between 2012 and 2022: a retrospective cohort study The Lancet Child & Adolescent Health, Volume 9, Issue 12, 857 - 867

¹⁸ONS (2024) Birth characteristics in England and Wales: 2022

¹⁹Mae'n bwysig nodi nad yw ethnigrwydd baban bob amser yn cyfateb i ethnigrwydd y fam

²⁰MBRRACE-UK (2025) Perinatal mortality surveillance

²¹MBRRACE-UK (2025) Perinatal mortality surveillance

Mae cryn dystiolaeth fod babanod yn fwy tebygol o farw yn fuan ar ôl eu geni os ydynt yn cael eu geni i famau sydd eisoes yn wynebu anghydraddoldeb neu anfantais. Darganfu Mynegai Amddifadedd Lluosog diweddaraf Cymru fod 28 y cant o'r holl blant rhwng 0 a 4 oed yng Nghymru yn byw mewn amddifadedd incwm²². Mae babanod sy'n cael eu geni mewn tlodi yn fwy tebygol o gael deilliannau geni anffafriol, gan gynnwys pwysau geni isel²³ a chael eu geni'n gynnar, ill dau'n cynyddu risg marwolaeth newyddenedigol²⁴. Ehangodd gwahaniaethau mewn cyfraddau marwolaeth newyddenedigol yn ôl amddifadedd economaidd gymdeithasol ymhellach yn 2023. Fe wnaeth cyfraddau godi i fabanod a anwyd i famau o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (o 2.38 fesul 1,000 genedigaeth fyw yn 2022 i 2.50 yn 2023), sef cyfradd sydd bellach dros ddwbl cyfradd y babanod a anwyd i famau yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, lle gwnaeth y gyfradd ostwng o 1.18 fesul 1,000 genedigaeth fyw yn 2022 i 1.03 yn 2023²⁵.

Deall gwahaniaethau a sut i'w gostwng

Mae'r gwahaniaethau yn y deilliannau newyddenedigol rhwng grwpiau ethnig a deilliannau gwaeth y rhai mewn ardaloedd â mwy o ddifreintedd yn frawychus. Yn amlwg, mae rhai o'r gwahaniaethau hyn yn gysylltiedig â'r gofal sy'n cael ei dderbyn cyn geni mewn gwasanaethau mamolaeth, a'r problemau economaidd gymdeithasol ehangach sy'n cael eu hwynebu gan y teulu. Darganfu ymchwil gan Bliss fod lefelau is yn nodweddiadol o ymwneud gan rieni ymhlith teuluoedd incwm is²⁶. Rydym wedi amlygu hefyd anghydraddoldebau ym mynediad teuluoedd o gefndiroedd de Asiaidd²⁷ a rhieni ifanc²⁸ at ofal newyddenedigol a'u profiad ohono.

Mae diffyg data am sut mae anghydraddoldebau yn gyrru gwahaniaethau mewn deilliannau newyddenedigol ac, yn hollbwysig, sut caiff yr anghydraddoldebau mewn cymdeithas eu hadlewyrchu yn yr uned newyddenedigol. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes ar waith; er enghraifft, mae ymchwil yn dangos bod y defnydd eang o offer diagnostig sy'n dibynnu ar newidiadau yn lliw'r croen i nodi afiechydon difrifol mewn babanod newyddenedigol yn peri risg i fabanod duon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol^{29,30}. Felly, rhaid buddsoddi mewn ymchwil i nodi a chraffu ar annhegwch rhwng babanod o gefndiroedd demograffig gwahanol i yrru gwelliannau ar sail tystiolaeth.

Pwysigrwydd gwella casglu data

I fynd i'r afael yn effeithiol â gwahaniaethau mewn deilliannau newyddenedigol, rhaid i Lywodraeth newydd Cymru ymrwmo i wella casglu a dadansoddi data. Rhaid bod ymdrech i gofnodi ethnigrwydd babanod yn gywir, gan nad yw mamau a babanod bob amser yn rhannu'r un ethnigrwydd. Mae hyn yn hanfodol i archwilio gwahaniaethau mewn deilliannau i fabanod sydd angen gofal newyddenedigol.

Mae gwella casglu data yn gam sylfaenol at lunio polisiau ar sail tystiolaeth. Heb ddata cadarn wedi'i ddadgyfuno ar famau a babanod, mae heriau penodol y cymunedau hyn yn aml yn anweladwy o fewn ystadegau ehangach y boblogaeth. Mae'n caniatáu am ddealltwriaeth fwy trylwyr o sut mae ethnigrwydd a statws economaidd gymdeithasol yn rhyngweithio i lywio deilliannau, ac mae'n ategu datblygiad gwasanaethau cynhwysol, cymwys yn ddiwylliannol.

²²Llywodraeth Cymru (2019) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: dadansoddiad amddifadedd sy'n ymwneud â phlant ifanc

²³Llywodraeth Cymru (2019) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: dadansoddiad amddifadedd sy'n ymwneud â phlant ifanc

²⁴Thomson et al (2021) Socioeconomic inequalities and adverse pregnancy outcomes in the UK and Republic of Ireland: a systematic review and meta-analysis

²⁵MBRRACE-UK (2025) Perinatal mortality surveillance

²⁶Bliss (2022) Impact of cost-of-living crisis in neonatal care

²⁷Bliss (2022) South Asian Families' Experiences Report

²⁸Bliss (2021) Neonatal care through a young parent lens

²⁹KWISA (2024) Nothing About Us Without Us: Women of African and Caribbean Heritage Community Voices Report

³⁰NHS Race Health Observatory (2023) Review of neonatal assessment and practice in Black, Asian, and minority ethnic newborns

2. Cefnogi rhieni i fod wrth grud eu baban a chymryd rhan mewn gofal

Mae gwasanaethau newyddenedigol yn cael eu trefnu i sicrhau bod gan fabanod y cyfle gorau posibl i oroesi a'r ansawdd bywyd gorau. Mae ar fabanod angen cael y lefel gywir o ofal, ar yr adeg gywir, i hyn fod yn bosibl. Er bod gwasanaethau bob amser yn anelu at ofalu am fabanod mor agos â phosibl at adref, mae natur arbenigol gofal newyddenedigol yn golygu weithiau nad yw'n bosibl osgoi gorfod darparu gofal ymhell i ffwrdd o adref.

Mae nifer o bethau'n rhwystro gallu rhieni i fod wrth grud eu baban a chymryd rhan mewn gofal. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg llety dros nos i rieni yn yr uned a'r baich ariannol sydd ynghlwm â derbyn i uned newyddenedigol. Rhaid i'r mwyafrif o rieni adael ochr eu baban yn yr ysbyty dros nos, gan na ddarperir rhywle i gysgu ar uned newyddenedigol, fel mater o drefn. Mae ar rieni angen cymorth ymarferol ac ariannol fel y gallant fod gyda'u baban cymaint â phosibl.

Argymhellion Bliss i gynorthwyo rhieni i fod wrth grud eu baban a chymryd rhan mewn gofal:

- Datblygu rhaglen grantiau bach fel y gall Byrddau Iechyd wneud cais am gyllid ar unwaith i brynu dodrefn neu gyfarpar newydd i wella'r amgylchedd newyddenedigol a darparu cyfleusterau i rieni i'w cynorthwyo â bod yn bartneriaid yng ngofal eu baban
- Nodi'r buddsoddiad cyfalaf sy'n ofynnol i godi'r holl lety i rieni i safon ofynnol ar unedau newyddenedigol dros y cyfnod tymor canolog
- Sefydlu Cronfa Treuliau Newyddenedigol i helpu gyda'r costau uchel ar deuluoedd o fod yn bartneriaid yng ngofal eu baban.

Llety

Mae darparu rhywle i rieni aros – p'un a yw hynny mewn ystafelloedd preifat ar y safle, mewn llety i deuluoedd gerllaw'r ysbyty, neu ar welyau y gellir eu tynnu allan wrth y crud – yn allweddol i alluogi a darparu buddion Gofal Integredig i Deuluoedd. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddarpariaeth llety annigonol ar draws Cymru, nid yw rhieni'n gallu bod yn bartneriaid yng ngofal eu baban yn rheolaidd ac yn gyson. I rai rhieni, nid ydynt yn gallu bod gyda'u baban bob dydd oherwydd y diffyg seilwaith hwn.

Darganfu ein hymchwil:

- Nid yw rhieni bron i 9 o bob 10 baban yng Nghymru yn gallu aros mewn ystafell dros nos ar yr uned³¹
- Dywed 87 y cant o rieni'r DU nad oes llety dros nos ar gael iddynt fod hyn wedi'u hatal rhag cymryd rhan yng ngofal eu baban rywfaent o'r amser³²
- Mae rhieni'n disgrifio mai gadael eu baban dros nos i fynd adref yw un o'r pethau anoddaf am fod â baban mewn gofal newyddenedigol
- I lawer o rieni, mae cymryd rhan yn ystyrllon yng ngofal eu baban yn aml yn golygu bwydo dros nos a bod gyda'u baban yn ystod y nos – yn union fel y byddent yn disgwyl gwneud gartref neu mewn uned baediatrig³³.

³¹Bliss (2024) Families Kept Apart in Wales

³²Canlyniadau arolwg Bliss o sampl o fwy na 1900 o rieni

³³Canlyniadau arolwg Bliss o sampl o fwy na 1900 o rieni

Mae Manyleb Gwasanaeth Newyddenedigol Cymru yn amlygu'r gofyniad bod gwasanaethau'n darparu Gofal Integredig i Deuluoedd³⁴ ac mae'n gorchymyn y "dylai cyfleusterau ac adnoddau fod ar gael i alluogi rhieni/gofalwyr i breswyllo gyda'u baban cyn hired ag y dymunant ac y gallant. Mae hyn yn cynnwys digon o lety ar neu gerllaw'r uned newyddenedigol i deuluoedd". Yn fwyaf diweddar, darganfu'r Asesiad Sicrwydd Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol fod y ddarpariaeth yn anghyfartal, er bod gwasanaethau'n gwneud eu gorau i ddefnyddio'u llety yn hyblyg. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn unedau newyddenedigol, gan effeithio ar ddarparu Gofal Integredig i Deuluoedd, a nodwyd bod dibynnu ar arian elusennol yn hytrach nag arian cyfalaf canolog yn broblem allweddol³⁵.

Cronfa Treuliau Newyddenedigol

Mae teuluoedd, yn enwedig teuluoedd ar incwm isel, yn wynebu dewis annirnad rhwng cymryd rhan yn llawn yng ngofal eu baban a mynd i ddyled³⁶. Yn yr Alban, mae Cronfa Teuluoedd Cleifion Ifanc – a ehangwyd o Gronfa Treuliau Newyddenedigol yn wreiddiol – ar gael i rieni i dalu am gludiant, parcio, bwyd a llety dros nos, ac argymhellwn gyflwyno cynllun tebyg yng Nghymru.

Mae hwn yn ddull profedig. Mewn gwerthusiad o Gronfa Treuliau Newyddenedigol yr Alban, dywedodd rhieni fod gallu hawlio o'r gronfa wedi lleddfu pryderon ariannol yn ystod cyfnod llawn straen a'u helpu i dreulio mwy o amser gyda'u baban yn yr uned newyddenedigol³⁷.



³⁴GIG Cymru (2024) Gwasanaethau Newyddenedigol (Gofal Dwys, Dibyniaeth Fawr a Gofal Arbennig)

³⁵Llywodraeth Cymru (2026) Y llwybr tuag at ddechrau mwy diogel yng Nghymru

³⁶Bliss (2022) Bliss briefing: Impact of cost-of-living crisis in neonatal care

³⁷Llywodraeth yr Alban (2019) Neonatal Expenses Fund year one: evaluation

3. Creu gweithlu newyddenedigol i'r dyfodol

Mae angen i dîm amlddisgyblaethol, wedi'i staffio'n llawn, o weithwyr proffesiynol iechyd ofalu am fabanod er mwyn iddynt gael y deilliannau gorau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw lefelau'r gweithlu ar unedau newyddenedigol yn bodloni'r safonau staffio diogel a nodir gan gyrff cenedlaethol.

Argymhelliad Bliss i sicrhau diogelwch ac ansawdd gwasanaethau newyddenedigol:

- Gweithredu'r Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol yn llawn dros y 3 blynedd nesaf i sicrhau bod gan unedau newyddenedigol staff nyrsio, meddygol, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, seicolegwyr a fferyllwyr digonol ar gyfer nifer eu crudiau, yn unol â safonau cenedlaethol ar gyfer niferoedd a sgiliau.

Mae ymchwil yn dangos bod diogelwch gwasanaethau newyddenedigol yn dibynnu ar unedau'n bodloni gofynion isafswm staff sydd wedi'u gorfodi'n genedlaethol. Os nad oes digon o nyrsys, meddygon a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, seicolegwyr a fferyllwyr (AHPPPs), mae babanod yn fwy tebygol o gael deilliannau gwaeth – gan gynnwys cyfraddau marwolaeth uwch – na babanod sy'n cael eu trin mewn unedau newyddenedigol sy'n bodloni'r niferoedd staffio a'r cyfuniad sgiliau gofynnol³⁸.

Darganfu'r Asesiad Sicrwydd Cenedlaethol diweddar o Wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol brinderau ar draws pob grŵp staff – gan gynnwys neonatolegwyr, staff nyrsio newyddenedigol a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd³⁹. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil Bliss, a wnaed yn 2024, a ddarganfu brinder o 62 y cant ar y cyfan rhwng y lefelau staffio AHPPP argymelledig ar gyfer unedau newyddenedigol a'r lefelau staffio sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yng Nghymru⁴⁰, ynghyd ag amrywiad sylweddol rhwng y ddarpariaeth gwasanaethau yng Nghymru, gyda'r prinder staffio cyfartalog ar ei uchaf yn achos seicoleg, sef 90 y cant (yr ail uchaf yn y DU) a'r isaf yn 40 y cant ar gyfer deieteg⁴¹.

Nododd yr Asesiad Sicrwydd nifer o broblemau a oedd yn achosi heriau staffio, gan gynnwys diffyg cyllid i gefnogi swyddi, cyfraddau uchel o salwch ac ymdrechion recriwtio aflwyddiannus⁴². Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil Bliss, a ddarganfu heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw staff AHPPP oherwydd cyfyngiadau cyllid, adnoddau a chymorth⁴³, ac mae'n adleisio canfyddiadau'r Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol, a ddarganfu timau dan straen bylchau a chyflenwi ad hoc, sy'n effeithio ar les, addysg, hyfforddiant, ymchwil a gwasanaethau eraill⁴⁴. Nid yn unig y mae'r pwysau hyn yn peryglu ansawdd gofal, maent hefyd yn cyfrannu at ddiffygiant a throsiant staff. Felly, mae buddsoddi mewn ansawdd a rolau hyfforddiant yn hanfodol i gadw staff mewn unedau newyddenedigol, yn enwedig o ystyried gofynion y swydd a phroblemau diogelwch sy'n cael eu hachosi gan brinder staff.

³⁸Watson et al (2016) The effects of a one-to-one nurse-to-patient ratio on the mortality rate in neonatal intensive care: a retrospective, longitudinal, population-based study

³⁹Llywodraeth Cymru (2026) Y llwybr tuag at ddechrau mwy diogel yng Nghymru

⁴⁰Bliss (2025) Filling the gaps: A spotlight on Allied Health Professional, Psychological and Pharmacy Roles in Neonatal Care

⁴¹Bliss (2025) Filling the gaps: A spotlight on Allied Health Professional, Psychological and Pharmacy Roles in Neonatal Care

⁴²Llywodraeth Cymru (2026) Y llwybr tuag at ddechrau mwy diogel yng Nghymru

⁴³Bliss (2025) Filling the gaps: A spotlight on Allied Health Professional, Psychological and Pharmacy roles in neonatal care

⁴⁴Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023) Gwella Gyda'n Gilydd Dros Gymru: Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol yng Nghymru Adroddiad Cyfnod Darganfod

Ailddylunio gwasanaethau i roi'r gofal gorau i'r babanod lleiaf a mwyaf sâl

Gwyddom fod derbyn y lefel gywir o ofal yn yr uned gywir yn hanfodol i fabanod gael y deilliannau tymor byr a thymor hir gorau, gan gynnwys y cyfle gorau i'r babanod lleiaf a mwyaf sâl oroesi⁴⁵. Felly, roedd hi'n bryderus gweld canfyddiadau'r Asesiad Sicrwydd Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yn amlygu darnio o ran y cydlynw rhwng unedau newyddenedigol, yn enwedig yn ne Cymru lle mae trefn unedau newyddenedigol yn effeithio ar ofal a phrofiad babanod a theuluoedd⁴⁶.

Mae Bliss yn cefnogi'n gryf yr argymhelliad bod y Cyd-bwyllgor Comisiynu yn gwneud cynnydd brys wrth gynllunio model gwasanaethau newyddenedigol i wella gofal yn awr ac i'r dyfodol, gan olygu y bydd mwy o fabanod hynod gynnar a hynod sâl yn goroesi ac yn goroesi'n dda. Rydym yn annog Llywodraeth nesaf Cymru i flaenoriaethu'r argymhelliad hwn i sicrhau bod ailddylunio gofynnol y gwasanaeth yn digwydd.

Mae Bliss wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru tan ddiwedd mis Mawrth 2027 ar gyfer rhaglen waith. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys:

- Cefnogi pob uned newyddenedigol yng Nghymru i weithio tuag at gyflawni Achrediad Siarter Babanod Bliss lefel Efydd
- Gwellu mynediad yr holl deuluoedd â babanod newyddenedigol yng Nghymru at wybodaeth a chymorth Bliss
- Peilota gwasanaeth cymorth digidol newydd i rieni babanod newyddenedigol
- Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol gofal iechyd
- Cyhoeddi adroddiad ar anghydraddoldebau newyddenedigol yng Nghymru.

⁴⁵BAPM (2021) Optimal Arrangements for Neonatal Intensive Care Units in the UK including guidance on their Medical Staffing

⁴⁶Llywodraeth Cymru (2026) Y llwybr tuag at ddechrau mwy diogel yng Nghymru



Ymuno â'r teulu

Os yw eich baban mewn uned newyddenedigol oherwydd cafodd ei eni'n gynnar neu'n sâl, dydych chi ddim ar eich pen eich hun. Cewch wybodaeth ymarferol, cefnogaeth emosiynol a chymuned o deuluoedd â phrofiad newyddenedigol yn bliss.org.uk

Ymunwch â'r teulu, chwiliwch Blisscharity ar



Elusen gofrestredig rhif 1002973 Elusen gofrestredig yn yr Alban SC040878